C. S. LEWIS (JACK)

'Fy Arglwydd a'm Duw'

(gonestrwydd / gweledigaeth)

Bu farw mam Jack pan oedd yn naw mlwydd oed. Am rai blynyddoedd roedd hi wedi dioddef o ganser. Roedd Jack yn ei chael hi'n anodd iawn i ddygymod â salwch ei fam. Yn yr ysgol byddai'n clywed y pennaeth yn darllen o'r Beibl yn y gwasanaeth boreol. Bob tro, byddai'n pwysleisio fod Duw yn garedig ac yn llawn cariad. Un diwrnod bu'n rhaid i ddosbarth Jack ddysgu'r adnod, "Duw cariad yw". Ond roedd yn methu deall sut roedd Duw, oedd yn gariad ac yn garedig wrth bawb, yn gadael i'w fam ddioddef. Doedd Jack byth yn trafod hyn gyda'i ffrindiau na'i athrawon yn yr ysgol ond roedd y cwestiwn ar ei feddwl ddydd a nos.

Pan fyddai'n clywed ei fam yn griddfan mewn poen byddai'r cwestiwn yn dod yn ôl iddo. Ar brydiau byddai'n teimlo'n ddig a chas tuag at Dduw. Bu farw ei fam. Penderfynodd yntau nad oedd am gredu ym modolaeth Duw. Cafodd yrfa ddisglair iawn yn yr ysgol ac aeth i'r coleg i astudio Saesneg. Tra oedd yn yr ysgol a'r coleg doedd ganddo ddim i'w ddweud wrth Gristnogaeth. Byddai'n dadlau'n gryf yn erbyn daliadau Cristnogol gyda'i gyd-fyfyrwyr.

Roedd rhai ohonyn nhw'n cytuno â Jack ond roedd mwyafrif mawr yn dadlau yn ei erbyn ac yn dangos fel roedd y ddysgeidiaeth Gristnogol wedi gwella cyflwr y ddynoliaeth. Ond doedd dim troi ar Jack. Ni allai weld unrhyw beth o blaid y grefydd Gristnogol; yn wir doedd Duw ddim yn bod a dyna i gyd!

Ym 1925 cafodd ei apwyntio'n athro Saesneg yng ngholeg Magdalen, Caergrawnt. Yn ystod ei dymor yn y coleg daeth i gysylltiad ag athrawon eraill ac yn eu plith JRR Tolkien. Yn yr ystafell athrawon roedd y dadlau'n frwd a Jack yn dal ei dir. Ond bryd hynny roedd y mwyafrif o'r athrawon yn Gristnogion. Yn ystod tymor y Drindod ym 1929 cyfaddefodd, "Mae Duw yn Dduw", a phenliniodd a gweddïodd am y tro cyntaf yn ei fywyd. Ac yna, ar 28 Medi 1931, daeth yn Gristion. Ar ôl trafodaethau gyda'i ffrind Tolkien, oedd yn aelod o'r Eglwys Babyddol, a Hugo Dyson penderfynodd dderbyn Cristnogaeth fel ffordd o fyw. Yn ôl Jack, "Pan aeth fy ffrind a minnau ar gefn motor beic i Sŵ Whipsnade, wrth gychwyn doeddwn i ddim yn credu yn Iesu Grist ond pan wnaethom ni gyrraedd mi roeddwn i'n credu yn Iesu fel mab Duw."

Ar ôl y digwyddiad hwn bu Jack a'i gyd-athrawon yn cyfarfod yn ystafell Jack yng ngholeg Magdalen bob nos Iau ac yna cyn cinio ar ddydd Llun neu ddydd Gwener yn ystafell gefn yr Eryr a'r Plentyn, sef tafarn yng nghanol y dref.

Yn ystod y 30 mlynedd nesaf ysgrifennodd Cecil Staples Lewis, i roi ei enw iawn iddo, bump ar hugain o lyfrau ar Gristnogaeth. Yn eu plith roedd *The Screwtape Letters* (1942) a *The Chronicle of Narnia* rhwng 1950 a 1956. Derbyniodd Fedal Carnegie am y gwaith hwn.

Y rhyfeddod yw fod y dyn oedd wedi gwrthod y grefydd Gristnogol yn ystod ei ieuenctid a'i lencyndod wedi dod yn un o ladmeryddion mwyaf y grefydd honno yn ystod yr 20fed ganrif. Bu farw wythnos cyn ei ben-blwydd yn 65 oed ar yr union ddiwrnod y saethwyd John F. Kennedy.

Adnod: "Foneddigion, beth sy raid i mi ei wneud i gael fy achub?" Dywedasant hwythau, "Cred yn yr Arglwydd Iesu, ac fe gei dy achub, ti a'th deulu." Actau 16:30–31

Gweddi: O Dduw, helpa fi i ddweud fel y dywedodd y disgybl Thomas ar ôl iddo weld y Crist Atgyfodedig, "Fy Arglwydd a'm Duw." Amen.

Trafod:

- Trafodwch y dadleuon o blaid ac yn erbyn bodolaeth Duw.
- Chwiliwch am fwy o wybodaeth am waith llenyddol a Christnogol C. S. Lewis.